Bitesize

# Gwylio’r glannau

| | |
|---|---|
| RHONA | Rhona sy’ ‘ma, yn flogio o draeth Y Borth yng Ngheredigion. Nawr, pan ddown ni i ddelio ag erydiad arfordirol a llifogydd, mae dwy strategaeth. Strategaeth peirianneg galed, a strategaeth peirianneg feddal.<br><br>Mae pentre’r Borth yn cael ei warchod gan ddefnyddio cyfuniad o strategaethau peirianneg galed a meddal.<br><br>Peirianneg galed yw codi strwythurau, sy’n arbed erydiad pellach, fel morgloddiau o greigiau ac argorau. Mae’r argorau a’r morgloddiau o greigiau yn cadw’r llinell ac yn atal erydiad, ac mae’r ddau argor yma’n enghraifft berffaith.<br><br>Yn hytrach na rhwystro tonnau rhag cyrraedd y lan, mae’r rîffiau yma yn eu harafu, gan ddal y tywod a'r graean i helpu cynnal traeth llydan. Mae traethau llydan yn amsugno egni’r don a chynnig amddiffynfa naturiol rhag erydiad arfordirol.<br><br>Gyda’r economi leol yn dibynnu ar dwristiaeth, mae’r rîff, hyd yn hyn, wedi profi’n effeithiol yn amddiffyn yr arfordir. Mae’n newyddion da hefyd i’r trigolion sy’n hoffi gweld y môr, heb gael llifogydd yn eu tai.<br><br>Yn Y Borth, strategaeth arall i amddiffyn yr arfordir yw i ailgyflenwi’r traeth. Dyma pryd mae tywod, neu yn achos Y Borth, graean, yn cael ei ychwanegu i’r traeth i’w wneud yn fwy llydan. Strategaeth sy’n ystyried twristiaid yw hon.<br><br>Ond yn Medmerry yng Ngorllewin Sussex mae math gwahanol o strategaeth peirianneg feddal ar waith, sef adlinio rheoledig. Dyma pryd maen nhw’n gadael i’r môr orlifo’r tir gan greu fflatiau llaid a morfeydd heli naturiol. Mae’r morfeydd yn denu amrywiaeth o adar ac anifeiliaid ac felly’n garedig i’r amgylchedd. |
| RHWYFWR | Efallai ei fod yn dda i’r amgylchedd, ond mae tir ffermio da wedi cael ei golli. |
| RHONA | Felly, mae gan bob strategaeth - galed neu feddal - ei manteision a’i hanfanteision. Rhaid i strategaeth amddiffyn arfordirol ystyried cartrefi, yr economi leol a’r amgylchedd. Hapus nawr? |


© Copyright BBC

RHWYFWR Ydw, sbo.

 © Copyright BBC